

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 6/3/2012

Presennol: Catrin Roberts (Cadeirydd), Huw Roberts (Is-gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths , Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Huw Antur, Hywel Evans, Iorwerth Evans, Bryn Edwards

Y Cyngorydd Sir, Alan Evans

Y Swyddog Ariannol a'r Clerc

1056 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

1057 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Caradog Evans a Rhodri Jones

1058 Derbyniwyd datganiadau buddiant ym materion cynllunio (Catrin Roberts a Beryl Hughes Griffiths) ac ym materion ariannol (Hywel Evans a Lis Puw)

1059 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Chwefror 6ed 2012

1060 Materion yn codi o gyfarfod mis Ionawr:

1017.7 Cofrestru Tir Nyrs y Fynwent – mae'r Cyfreithwyr yn ceisio cofrestru'r tir. Cytunodd Karl Jones i farcio'r map yn gywir. Awdurdodwyd y Clerc i ohebu parthed y datganiad ariannol.

Gweithredu: Karl Jones, Clerc

1031.1 Ffenest arosfan bws Tŷ'n Ddôl – adroddodd Mr Karl Jones ei fod ef a Mr Iorwerth Evans wedi bod yn trwsio ac yn tacluso. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith. Ymddengys mai bwriadol oedd y difrod a wnaethpwyd.

1031.4 Pwmp y Llan - mae'r gwaith o gynnal a chadw mewn llaw.

1031.5 Hysbysfwrdd y Llan - adroddodd Mr Arwel Lloyd Jones ei fod yn parhau i geisio cael dyfynbrisiau, fel sy'n ofynnol. Awgrymwyd ceisio cael grant, neu os nad ydy hynny'n bosib, cael busnesau lleol i'w noddi.

Gweithredu: Arwel Lloyd Jones, Clerc

1036 Hynt cynlluniau'r toiledau – adrodd Mr Karl Jones fod astudiaeth dichonoldeb wedi ei gwblhau a bod y mater yn awr yn derbyn sylw yn y Cynulliad.

Gweithredu: Clerc i wneud ymholiadau pellach

1055.1 Mynwent y Plwyf - derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Un Llais Cymru a'r Eglwys yng Nghymru mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y fynwent, y wal a'r ffens (ond nid am y porth na'r Eglwys). Cytunwyd i gynnal trafodaeth gyda Chylch y Llan er mwyn asesu risg a thrafod materion perthnasol

Gweithredu: Mr Hywel Evans i drefnu cyfarfod.

1055.2 Derbyniwyd cydnabyddiaeth gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda o lythyr y Cyngor yn cefnogi Ysbyty Bronglais.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Derbyniodd y Clerc neges yn ddiweddar fod golau stryd wrth feudy Pengeulan wedi torri; mae wedi ei drwsio erbyn hyn.

1061 Cadarnhawyd trefniadau'r Noson Goffi - bydd Mr Arwel Lloyd Jones yn arwain y noson, pryd y bydd y Cyngor hefyd yn cydnabod pen-blwydd Mrs Gwen Jones yn 100 oed. Cytunwyd i'r Cynghorwyr gyfrannu £6

1061 **Torri Gwair** Ystyriwyd tendrau ar gyfer torri gwair y fynwent a chytunwyd i drafod ymhellach gydag un o'r ymgeiswyr.

Gweithredu: Mr Hywel Evans

1063 Gohebiaeth:

1. Gwynedd: Derbyniwyd ffurflenni enwebu ar gyfer y Cyngor Cymuned

Derbyniwyd llythyr yn dweud y bydd y gwaith diogelu wrth yr ysgol yn cychwyn ym mis Gorffennaf.

2. Parc Cenedlaethol Eryri:

Derbyn cadarnhad o ganiatâd i waith ar Dyddyn Llan

Cytunwyd i gefnogi cais Dolfach am do newydd dros y storfa slyri NP5/71/26C.

3. Un Llais Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth am ddau gwrs a chytunwyd i'r Swyddog Ariannol fynychu'r cwrs yn Y Bermo.

Nodwyd y cais am enwebiadau gogyfer ag anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

4. Arall: Scottish Power Renewables – Cytunwyd i osod hwn ar agenda'r cyfarfod nesaf

Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyngor Cefn Gwlad am adolygu mapiau mynediad i diroedd. Bydd y gwaith yn cychwyn ym mis Gorffennaf.

1064 Materion ariannol:

- Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol
- Awdurdodwyd y Swyddog Ariannol i dalu :

£36.00 Hysbyseb torri gwair yn Y Cyfnod

£8.88 Tudur Morris – ar gyfer trwsio ffenest y toiledau

£74 Ffi John Roberts am y flwyddyn 2010-11

£35 Noson Goffi yn y Neuadd 2011

£35 Noson Goffi yn y Neuadd 2012

Cyflog y Clerc

Cyflog y Swyddog Ariannol Cyfrifol

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cydnabyddiaeth Swyddog y Fynwent

- Rhodddwyd ystyriaeth i geisiadau am arian a chytunwyd i'r Swyddog Ariannol wneud y cyfraniadau isod:

£60	Eisteddfod Cylch Penllyn yr Urdd
£50	Ffermwyr Ifanc
£25	Llên y Llannau
£50	Adran Bentref Llanuwchllyn
£650	Cyfraniad at redeg y Neuadd 2011
£50	Canolfan y Plase
£885	CYFANSWM
Awdurdodwyd talu'r rhain os daw ceisiadau:	
£50	<i>Teulu Gwalia</i>
£100	<i>Clwb Pêl droed</i>
£50	<i>Sioe Llanuwchllyn</i>

- Trafodwyd cyflogau / cydnabyddiaeth. **Cytunwyd:**

Talu costau rhedeg Swyddfa o £20 y mis i'r Clerc, sef £240 y flwyddyn
Cynyddu cyflog y Clerc o 5%
Cynyddu cyflog y Swyddog Ariannol o 5%
Cynyddu cydnabyddiaeth Swyddog y Fynwent o 5%

- Cytunwyd i glustnodi arian wrth gefn ar gyfer adnewyddu asedau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ym mis Ebrill.

Gweithredu: Y Swyddog Ariannol

1065 Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd adroddiad gan y Cynrychiolwyr. Cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo'r Cytundeb, sydd wedi cael ei ymestyn am flwyddyn arall.

1066 UFA

- Derbyniwyd cwyn fod parcio ar y llinellau dwbl y tu allan i Drem Aran sy'n achosi rhwystr i denantiaid lloriau uchaf Tŷ Aran. Cytunwyd i dynnu sylw'r Heddlu Cymunedol at hyn.
- Bydd is grŵp yn trafod trefniadau ar gyfer maen goffa Llew ap Gwent gyda'r teulu – Rhodri Jones, Arwel Lloyd Jones a'r Clerc.
- Derbyniwyd cwynion am faw cŵn yng nghefn fflatiau Maes y Pandy. Cytunwyd i ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd, gan sôn hefyd am sŵn yn ystod oriau anghymdeithasol.

Gweithredu: Clerc.

- Derbyniwyd gwybodaeth fod carafán yn parhau ar iard Pengeulan, yn groes i'r rheolau a osodwyd.

Gweithredu: Clerc i gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol.